



Tasg 2

Trefnu Diwrnod ShwmaeSumae

Beth am drefnu Diwrnod ShwmaeSumae yn yr ysgol?

Cofiwch:

- Rhaid siarad Cymraeg.
- Rhaid cael hwyl.

1. Beth am siarad am syniadau mewn grwpiau?

Mae help i chi ar y dudalen nesaf ond dyma rai geiriau i'ch helpu chi:

trefnu	to organize, arrange	gweithgareddau	activities
gwneud	to make, do	bathodynnau	badges
gwisgo	to wear	cacennau	cakes
gwerthu	to sell	caraoci	karaoke
gwahodd	to invite	sesiwn ...	a ... session
cynnal	to hold (an event)		

Gwnewch nodiadau wrth siarad.

2. Dwedwch wrth y dosbarth am eich syniadau chi.



3. Rhaid i'r dosbarth benderfynu ar y syniad gorau.

Geirfa	
wrth siarad	when speaking



Tasg 2

Beth am ...?
Beth am drefnu ...?
Beth am wahodd ...?
Dw i eisbau ...
Beth am werthu ...?
Hoffwn i gael ...
Syniad da.
Na, dw i ddim yn meddwl achos ...
Mae'n gas gen i ... / Mae'n gas gyda fi ...
Mae'n well gen i ... na ...
Mae'n well gyda fi ... na ...

Beth am yn ...?
yn y ...
ar y ...
wrth y ...
tu allan i'r ...

Ble ydyn ni'n mynd i ...?

Beth am ...?
Syniad da.
Na, dw i ddim yn meddwl achos ...
Dw i'n cytuno achos ...
Dw i ddim yn cytuno achos ...
Dw i'n anghytuno achos ...

Pryd ydyn ni'n mynd i ...?

Beth ydyn ni'n mynd i wneud?


Beth ydyn ni'n mynd i wneud?

Beth am wneud ...?
Ble ydyn ni'n mynd i roi'r ...?
Rhaid anfon
Rhaid siarad ar ...

Diwrnod ShwmaeSumae

Beth ydyn ni'n mynd i wisgo?

Mae ... yn syniad da.
Beth am ...?
Hoffwn i wisgo ...
Dw i'n cytuno achos ...
Dw i ddim yn cytuno achos ...
Dw i'n anghytuno achos ...



4. Ysgrifennwch daflen am y diwrnod.

Cofiwch ddweud:

- beth ydy Diwrnod ShwmaeSumae
- beth rydych chi'n mynd i drefnu
- ble
- pryd
- beth yn union fyddwch chi'n wneud
- sut rydych chi'n mynd i ddweud wrth bawb am y diwrnod.
- unrhyw wybodaeth arall.

Ceisiwch berswadio pobl i ddod i'r Diwrnod. Ydych chi'n cofio sut i berswadio?

- Ansoddeiriau da, e.e.
bendigedig **gwych** **hwyl** **ffantastig**
- Cwestiynau, e.e.
Wyt ti'n hoffi ...? neu **Ydych chi'n hoffi ...?**
Beth am ddod i fwynhau ...?
- Gorchmynion, e.e.
Tyrd i ... neu **Dere i ...**

Geirfa			
taflen	leaflet	ceisiwch	try
yn union	exactly	ansoddeiriau	adjectives
dweud wrth	to tell	gorchmynion	commands
unrhyw	any		



5. Rydych chi'n penderfynu gwneud 350 o fathodynnau ShwmaeSumae.

Dyma'r costau:

Cerdyn da: £20.00

Lamineiddio: £9.50

Piniau: £3.25

Tâp gludiog: £2.99

Faint ydy'r cyfanswm?

Rydych chi'n mynd i werthu'r bathodynnau yn yr ysgol. Dydych chi ddim eisiau gwneud colled nac elw ond rhaid cael digon o arian i dalu am wneud y bathodynnau.

Faint fydd pris pob bathodyn?

Dangoswch eich gwaith cyfrifo.

Geirfa			
lamineiddio	to laminate	colled	loss
pin, pinnau	pin, pins	nac	nor
tâp gludiog	sticky tape	elw	profit
cyfanswm	total	gwaith cyfrifo	calculations

Ewch i'r dudalen nesaf.



6. Beth am werthu cacennau amser cinio?

ShowMe Sale!

45c yr un

3 am bris 2

Disgownt o 5% os ydych chi'n gofyn yn Gymraeg.

Disgownt o 15% os ydych chi'n prynu mwy na 15

a. Mae Liz, Ben a Khalid yn prynu tair cacen ond maen nhw'n gofyn yn Saesneg. Faint maen nhw'n talu?


b. Mae Steph, Paul a Joanne yn prynu tair cacen ac maen nhw'n gofyn yn Gymraeg. Faint maen nhw'n talu?

c. Mae'r athrawon Cymraeg yn prynu 60 cacen (achos maen nhw'n hoffi bwyta cacen gyda'u coffi amser coffi!) – ac maen nhw'n gofyn yn Gymraeg – wrth gwrs.
Faint maen nhw'n talu?



7. Cofiwch gynnal y Diwrnod – a beth am wneud fideo?
Mwynhewch.

Cofiwch: mae'n bosib rhoi gwybodaeth ar facebook.
Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan [ShwmaeSumae](#).



Geirfa	
cynnal	to hold (an event)